

Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017

Fersiwn 1: Ebrill 2017

I gael eu hadolygu ym mis Hydref 2017

Cyfeirio timau deintyddol at wybodaeth, canllawiau a ffynonellau o gymorth

Bydd y canllaw cyfeirio hwn yn cynorthwyo'r "person cofrestredig" a thimau practisau deintyddol i gydymffurfio â'r Rheoliadau. Er mwyn ei gwneud yn haws i'w darllen, mae'r ddogfen hon weithiau'n cyfeirio atoch "chi" gan fod hyn yn golygu'r person cofrestredig, fel y diffinnir yn y Rheoliadau, yn bennaf.

Mae ei gynllun yn dilyn pob rhan o'r Rheoliadau ac yn canolbwyntio ar y rhannau hynny lle gallai gwybodaeth ychwanegol fod o gymorth. Mae'n ddefnyddiol cyfeirio ato ochr yn ochr â'r Rheoliadau eu hunain.

Bydd timau deintyddol sy'n darparu gofal deintyddol y GIG yn gyfarwydd â mwyafrif llethol y materion gan eu bod hefyd yn berthnasol i ofal y GIG.

Cyflwyniad

Daeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 i rym ar 1 Ebrill 2017 ac yn disodli'r holl reoliadau blaenorol yn ymwneud â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yng Nghymru. Mae Rheoliadau ar gael drwy'r ddolen hon

<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/202/contents/made/welsh>

Dyma'r prif newidiadau o Reoliadau blaenorol:

- Ni fydd yn ofynnol mwyach i ddeintyddion unigol gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) i ddarparu gofal deintyddol preifat yng Nghymru. Yn hytrach, bydd rhaid i **bob practis deintyddol** lle darperir gofal deintyddol preifat gofrestru gydag AGIC. (*Bydd yn ofynnol i'r "darparwr" gofrestru o dan y rheoliadau newydd – h.y. unigolyn, partneriaeth neu sefydliad sy'n rhedeg practis deintyddol preifat.*)

- Bydd rhaid i weithwyr gofal deintyddol proffesiynol sy'n darparu gofal mynediad uniongyrchol preifat o'u practisau eu hunain gofrestru gydag AGIC os byddant yn dymuno darparu'r gwasanaethau hyn yng Nghymru. Bydd hyn yn alinio'r gwasanaethau hyn gyda'r systemau sicrwydd practisau a chleifion sydd ar gael i bractisau deintyddol eraill, gan gynnwys arolygiad o'r practis gan AGIC.
- Bydd y rheoliadau yn alinio gofal deintyddol preifat ymhellach gyda'r safonau ansawdd a diogelwch sy'n berthnasol i wasanaethau'r GIG.
- Ni fydd rhaid i ddeintyddion neu weithwyr gofal deintyddol proffesiynol sy'n defnyddio laserau **ar gyfer triniaeth ddeintyddol yn** unig gofrestru fel ysbyty annibynnol i ddefnyddio'r offer hyn mwyach. Bydd eu defnyddio yn cael ei gynnwys ym mhroses cofrestrriad deintyddol AGIC.
- Ni fydd angen tystysgrif Datgelu a Gwahardd newydd bob tair blynedd ar ddeintyddion mwyach. Mae archwiliadau ac ardystiad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu halinio â gofynion ymarfer deintyddol y GIG.

Ansawdd a diogelwch mewn ymarfer deintyddol yw prif bwyslais y canllaw hwn

Ymgynghorwyd ar y rheoliadau newydd yn ffurfiol yn 2016 a darparwyd adborth gan sefydliadau deintyddol – fel Cymdeithas Ddeintyddol Prydain. Gallwch ddarllen adroddiad yr ymgynghoriad drwy'r ddolen hon:

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/rheoliadau-deintyddiaeth-breifat-cymru-2016-drafft>

Ym mis Ionawr 2017, ysgrifennodd Prif Swyddog Deintyddol Cymru at bob practis deintyddol yng Nghymru, pob deintydd sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) i ddarparu gofal deintyddol preifat yng Nghymru, a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau mynediad uniongyrchol preifat o'u practisau eu hunain (hylenyddion deintyddol, therapyddion deintyddol, technegwyr deintyddol clinigol). Cyflwynodd ei llythyr y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) newydd a gellir ei ddarllen drwy'r ddolen ganlynol:

<http://gov.wales/docs/phhs/publications/170206dentistryregscy.pdf>

Swyddogaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol y GIG, practisau deintyddol sy'n gwneud gwaith preifat, a phractisau sy'n gwneud cymysgedd o waith preifat a gwaith y GIG. Mae'r Rheoliadau yn cyfeirio at "yr awdurdod cofrestru" fel term cyffredinol yn hytrach nag AGIC.

Mae AGIC yn gwirio fod timau deintyddol yn bodloni safonau'r GIG a, lle'n berthnasol, gofynion cyfreithiol y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Gallwch ddarllen mwy am AGIC a chael gafeael ar y llyfr gwaith deintyddol a ddefnyddir yn ystod arolygiadau deintyddol drwy'r ddolen hon:

<http://hiw.org.uk/about/whatwedo/inspect/dental/?lang=cy>

Mae AGIC wedi datblygu system newydd ar gyfer cofrestru i ddarparu gofal deintyddol preifat. Gallwch ddarllen mwy am AGIC, y broses ar gyfer cofrestru, ac arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol drwy'r ddolen hon:

<http://hiw.org.uk/news/changestodentalregs?lang=cy>

Mae'n rhaid i bob practis sy'n darparu gofal deintyddol preifat gofrestru gydag AGIC gan gynnwys practisau "cangen" a phractisau sy'n sefydliadau ar wahân ond yn rhannu'r un safle.

Y ffi flynyddol ar gyfer cofrestru practis yw:

£300 i bractisau un deintydd sy'n darparu gofal deintyddol preifat a gofal y GIG

£500 i'r holl bractisau eraill, gan gynnwys practisau mynediad uniongyrchol preifat

Mae canllaw AGIC ar gael ar wefan AGIC drwy'r ddolen hon:

<http://hiw.org.uk/providing/registerwithus/registerapractice/?lang=cy>

Mae AGIC yn arolygu practisau yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal. Mae'r rhain yn berthnasol yn bennaf i leoliadau'r GIG ond mae o gymorth i bractisau deintyddol preifat eu deall. Gallwch gael mynediad at y safonau drwy'r ddolen hon:

<http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/health-and-care-standards>

Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017

Mae Rheoliadau yn ddogfennau cyfreithiol ac mae'n rhaid dilyn y gofynion. Mae'r canllaw hwn yn cynnig gwybodaeth ychwanegol syml am rai o'r rheoliadau a'i nod yw helpu personau cofrestredig a thimau deintyddol i fodloni'r gofynion cyfreithiol.

Mae'r "nodyn esboniadol" cychwynnol i'r Rheoliadau yn disgrifio'r fframwaith cyfreithiol sy'n sail i'r Rheoliadau a'u prif ddarpariaethau. Caiff hwn ei ddilyn gan y cynnwys. Mae'r nodiadau canllaw hyn yn ymwneud â'r rheoliad gwirioneddol y maent yn berthnasol iddo yn hytrach na'r "nodyn esboniadol".

Nid yw'r canllaw hwn yn cynnig gwybodaeth ychwanegol ar gyfer **pob** rheoliad. Yn hytrach, mae'n cynnig gwybodaeth ychwanegol ar gyfer rheoliadau penodol y mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn ddefnyddiol ei chynnig. Gwnaed hyn ar y cyd â chynrychiolwyr deintyddol (gan gynnwys Cymdeithas Ddeintyddol Prydain).

Mae'r canllaw'n cynnwys nifer o ddolenni i wefannau. Mae dolenni i Ddeoniaeth Cymru a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymddangos ar sawl achlysur a chânt eu cynnwys yma ar gyfer mynediad hwylus.

Mae **Hyfforddiant Ôl-raddedig Deintyddol ac Addysg yng Nghymru Deoniaeth Cymru Prifysgol Caerdydd** (y cyfeirir ato fel Deoniaeth Cymru) yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau i'r tîm deintyddol a chymorth ymarfer gan Diwtoriaid Gwella Ansawdd Ymarfer. Gallai fod yn ofynnol i bractisau sy'n gwbl breifat dalu ffi ar gyfer rhai o'r cyrsiau / cymorth.

<https://dental.walesdeanery.org/cy>

Mae'n rhaid bod gan bawb sy'n cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol fynediad rhwydd at **Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol**. Maent ar gael drwy'r ddolen isod, ynghyd ag amrywiaeth o ganllawiau eraill:

<https://www.gdc-uk.org/professionals/standards/team>

Atgoffir darllenwyr bod dolenni i'r we yn newid yn gyfnodol ac y dylech wirio eich bod yn edrych ar y tudalennau gwe diweddaraf.

Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017

Rhif y dudalen a rhif y paragraff / is-paragraff	Testun neu bennawd y Rheoliad	Canllawiau
<p>Tudalen 7 Rheoliad 2</p>	<p>“ystyr gweithiwr proffesiynol gofal deintyddol” yw -</p> <p>(a) hylenydd deintyddol;</p> <p>(b) therapydd deintyddol; neu</p> <p>(c) technegydd deintyddol clinigol.</p>	<p>Mae'r Rheoliadau'n cynnwys diffiniadau o dermau a ddefnyddir drwyddynt. Gan fod y rhain yn ddiffiniadau “cyfreithiol”, maent ychydig yn wahanol i'r ffordd y mae timau deintyddol yn eu defnyddio o ddydd i ddydd.</p> <p>Mae'r rhestr o weithwyr gofal deintyddol yn cynnwys Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol, y mae eu cwmipas ymarfer yn ôl y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn caniatáu iddynt ddarparu gwasanaethau mynediad uniongyrchol preifat o'u safleoedd practis eu hunain. Nid yw'n crybwyll nyrsys deintyddol yn benodol felly, ond mae'n cynnwys hylenydd deintyddol, therapydd deintyddol a thechnegydd deintyddol clinigol.</p>
<p>Tudalen 9 Rheoliad 2</p>	<p>“rheolwr cofrestredig”</p> <p>“person cofrestredig”</p> <p>“darparwr cofrestredig”</p> <p>“unigolyn cyfrifol”</p>	<p>Y sawl sy'n gyfrifol am reoli'r practis deintyddol o ddydd i ddydd. Nid yw'r rheoliadau'n nodi pwy all feddu ar y swydd hon ond mae'n rhaid iddo allu dangos y gall fodloni'r meini prawf a nodir yn Rheoliad 11 – Addasrwydd Rheolwr.</p> <p>Term yw hwn a ddefnyddir yn y rheoliadau i gyfeirio at y rheolwr cofrestredig a/neu'r darparwr cofrestredig, heb fod angen rhestru'r ddau derm.</p> <p>Y sefydliad, partneriaeth neu'r unig fasnachwr sy'n cael ei gofrestru i redeg practis deintyddol preifat yw hwn.</p> <p>Yr unigolyn a enwir gan y darparwr cofrestredig sy'n gyfrifol am oruchwylio rheolaeth y practis deintyddol preifat yw hwn. Yn achos sefydliad/cwmni, un o gyfarwyddwyr y cwmni neu swyddog yn y sefydliad/cwmni sy'n gyfrifol am oruchwylio rheolaeth y practis deintyddol preifat fyddai hwn fel rheol. Yn achos partneriaeth, byddai'r holl bartneriaid yn cael eu hystyried yn unigolyn/ion cyfrifol. Yn achos unig fasnachwr, ef ei hun fyddai'n cyflawni'r swyddogaeth hon.</p>

Tudalen 9 Rheoliad 2	“cwmpas ymarfer”	<p>Gallwch weld Cwmpas Ymarfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol drwy'r ddolen hon. Mae'n rhaid i holl aelodau tîm deintyddol ddeall eu cwmpas ymarfer eu hunain, ond mae hefyd o gymorth deall cwmpas ymarfer pobl eraill.</p> <p>http://www.gdc-uk.org/Dentalprofessionals/Standards/Documents/Scope%20of%20Practice%20September%202013%20(3).pdf</p>
Tudalen 10 Rheoliad 5	Datganiad o Ddiben	<p>Mae tudalen 36, Atodlen 1 yn rhestru'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn y Datganiad o Ddiben. Mae AGIC yn cynnig templed ar gyfer y Datganiad o Ddibendwy'r ddolen hon:</p> <p>http://hiw.org.uk/providing/registerwithus/registerapractice/?lang=cy</p> <p>Mae'r Datganiad o Ddiben yn debyg iawn i'r daflen gwybodaeth i gleifion (gweler yr adran nesaf) i bob pwrpas.</p>
Tudalen 10 Rheoliad 6 ac Atodlen 2	Gwybodaeth i Gleifion	<p>Gweler tudalen 37 (Atodlen 2) am restr o'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn y daflen gwybodaeth i gleifion.</p> <p>Dylai'r daflen fod yn hawdd ei darllen ac wedi ei hysgrifennu mewn iaith seml. Os oes gennych daflen gwybodaeth i gleifion y GIG, gellir ei haddasu i fodloni'r holl ofynion a restrir yn Atodlen 2. Ceisiwch osgoi defnyddio iaith dechnegol, “jargon” neu acronymau.</p> <p>Gallwch wirio darllenadwyedd eich taflen gwybodaeth i gleifion gan ddefnyddio mynegeion darllenadwyedd. Mae'r ddolen hon yn cynnig gwybodaeth am fynegeion darllenadwyedd:</p> <p>http://www.readabilityformulas.com/smog-readability-formula.php</p> <p>Dylech anelu at oedran darllen o tua 12 i 13 oed. Mae'r ddolen isod yn eich galluogi i gyfrifo hyn:</p> <p>http://www.readabilityformulas.com/free-readability-formula-tests.php</p>

		<p>Mae Paragraff 8 Atodlen 2 yn ei gwneud yn ofynnol i chi gynnwys “manyion personau y mae ganddynt fynediad at wybodaeth am gleifion”. Mae hyn yn cynnwys deintyddion ac aelodau eraill o’r tîm deintyddol clinigol, ond gallai hefyd gynnwys y derbynydd a rheolwr y practis.</p> <p>Mae’n rhaid i bractisau sy’n darparu gofal deintyddol y GIG arddangos rhestr ffioedd y GIG. Cydnabyddir nad yw’n ymarferol i ddarparu rhestr brisiau gynhwysfawr ar gyfer yr holl driniaethau mewn practisau sy’n darparu gofal deintyddol preifat, ond mae Rheoliad 6(3) yn ei gwneud yn ofynnol i’r practis arddangos gwybodaeth ddangosol am ffioedd cleifion. Dylai’r practis arddangos rhestr brisiau ddangosol o’r triniaethau a’r gofal a ddarperir yn fwy cyffredin, e.e. archwiliad, digennu a llathru / OHI, archwiliadau pelydr-X (fel <i>bitewings</i> neu OPT), llenwad (gwyn / amalgam), coron un daint (porslen / aur), a dannedd gosod Co/Cr.</p> <p>Bydd rhai cleifion yn derbyn gofal deintyddol y GIG a gofal deintyddol preifat. Yn yr achosion hyn, mae’n rhaid i chi ei gwneud yn eglur i’ch cleifion pa driniaethau y gellir eu darparu o dan y GIG a pha rai y gellir eu darparu ar sail breifat yn unig. Dylech roi gwybodaeth gywir i gleifion am y ffioedd sy’n daladwy o dan y GIG a gwasanaethau preifat.</p> <p>Mae’n rhaid i’r daflen gwybodaeth i gleifion gynnwys enwau deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sy’n gweithio yn y practis. Mae’n arfer da i bractisau deintyddol arddangos enwau a chymwysterau aelodau eu tîm deintyddol yn yr ystafell aros, er nad yw hwn yn ofyniad o dan y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat newydd. Mae Safonau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol yn nodi bod cleifion yn disgwyl gwybod enwau’r rhai sy’n darparu eu gofal a bod rhaid i dimau deintyddol sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu’n llawn am enwau a swyddogaethau’r gweithwyr deintyddol proffesiynol sy’n cymryd rhan yn eu gofal.</p>
--	--	--

Tudalen1 1 Rheoliad 7	Adolygu'r datganiad o ddiben a'r daflen gwybodaeth i gleifion	Mae'n rhaid i chi adolygu'r dogfennau hyn bob blwyddyn o leiaf. Os oes angen eu diwygio, mae'n rhaid i chi wneud y newidiadau angenrheidiol a hysbysu AGIC o fewn 28 diwrnod.
Tudalen 11 Rheoliad 8	<p>Polisïau a Gweithdrefnau</p> <p>y trefniadau ar gyfer sicrhau iechyd a diogelwch staff a chleifion;</p> <p>y trefniadau sy'n ymwneud â rheoli heintiau gan gynnwys hylendid dwylo, trin a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, gweithdrefnau cadw tŷ a glanhau, a hyfforddiant a chynghor perthnasol;</p> <p>y trefniadau ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol;</p> <p>y trefniadau ar gyfer delio ag argyfyngau meddygol sy'n sicrhau bod staff a all fod yn gysylltiedig â delio ag argyfwng meddygol yn cael yr hyfforddiant priodol;</p>	<p>Efallai y bydd y polisïau a'r gweithdrefnau hyn gennych eisoes os yw eich practis yn darparu gofal y GIG, ond dylech eu hadolygu i sicrhau eu bod yn berthnasol i wasanaethau preifat ac yn bodloni'r Rheoliadau.</p> <p>Dylai polisïau a gweithdrefnau fod yn gryno ac wedi eu hysgrifennu'n eglur fel y gall holl aelodau'r tîm eu deall. Dylech gadw ffolder o bolisïau a gweithdrefnau cyfredol a system syml i ddangos bod yr holl staff wedi eu darllen (e.e. taflen yn dangos enwau'r holl staff y maent yn ei llofnodi a'i dyddio pan fyddant wedi darllen y polisïau a'r gweithdrefnau).</p> <p>Gall sefydliadau fel Cymdeithas Ddeintyddiaeth Prydain gynnig polisïau a gweithdrefnau enghreifftiol ond mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr eu bod yn berthnasol i'ch practis ac wedi eu haddasu'n briodol i'ch practis.</p> <p>Nid oes angen polisïau a gweithdrefnau penodol arnoch os nad ydynt yn berthnasol i'ch practis – e.e. os nad ydych yn darparu gofal cartref, neu nad ydych yn cyflenwi meddyginiaethau yn uniongyrchol i gleifion.</p> <p><u>Gwybodaeth am bolisïau a gweithdrefnau penodol a nodir yn y Rheoliadau:</u></p> <p>Mae Deoniaeth Ddeintyddol Cymru yn cynorthwyo practisau gyda hyfforddiant, addysg, datblygiad ac archwiliadau a allai fod o gymorth i chi ar gyfer y polisïau a'r gweithdrefnau a nodir uchod. Efallai y bydd ffi am y cymorth hwn os bydd eich practis yn gwbl breifat.</p>

	<p>y trefniadau ar gyfer cynlluniau wrth gefn ar gyfer argyfyngau sy'n sicrhau bod y practis deintyddol preifat yn parhau i gael ei redeg yn ddiogel;</p>	<p>Gall argyfyngau ddigwydd yn annisgwyl a gallant fod y tu hwnt i reolaeth y practis yn llwyr, e.e. llifogydd yn y practis, system wresogi yn torri, dim dŵr ar gael o'r prif gyflenwad. Nid oes angen i chi gynnwys pob sefyllfa argyfwng posibl yn eich polisi wrth gefn ar gyfer argyfyngau ond mae'n rhaid i chi amlinellu'r trefniadau cyffredinol sydd gennych i ymdrin â nhw, gan gynnwys cysylltu â chleifion os na ellir defnyddio'r ddeintyddfa.</p>
<p>Tudalen 12 Rheoli ad 8 (3)</p>	<p>"...y gofal a'r driniaeth i gleifion nad oes ganddynt alluedd"</p>	<p>Mae rhagor o wybodaeth am Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (gan gynnwys canllawiau a Chod Ymarfer) ar gael drwy'r dolenni hyn:</p> <p>https://www.bma.org.uk/advice/employment/ethics/mental-capacity/mental-capacity-toolkit http://www.scie.org.uk/mca/introduction/mental-capacity-act-2005-at-a-glance</p>
<p>Tudalen nau 12 a 13 Rheoli ad 8 (5) (b)</p>	<p>Pan fo gwasanaethau cartref yn cael eu darparu. Rhaid i'r practis roi sylw i unrhyw ganllawiau cenedlaethol wrth baratoi dogfennau polisi a gweithdrefnau ar ddarparu gwasanaethau cartref.</p>	<p>Cyhoeddir y canllaw cenedlaethol (<i>Guidelines for the Delivery of a Domiciliary Oral Healthcare Service</i>) gan Gymdeithas Anabledd ac Iechyd y Geg Prydain ac mae ar gael drwy'r ddolen hon: http://bsdh.org/userfiles/file/guidelines/BSDH_Domiciliary_Guidelines_August_2009.pdf</p>
<p>Tudalen 13 Rheoli ad 8 (6)</p>	<p>Rhaid i'r person cofrestredig adolygu gweithrediad polisiâu a gweithdrefnau a weithredir o dan y rheoliad hwn a Rheoliad 21 (cwynion) fesul ysbaid nad yw'n fwy na thair blynedd a, phan fo'n briodol,</p>	<p>Mae'n arfer da i adolygu polisiâu a gweithdrefnau o dro i dro er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod yn gyfredol. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i chi adolygu polisiâu a gweithdrefnau bob tair blynedd o leiaf. Nid oes angen eu newid er mwyn eu newid, ond dylid ysgrifennu'r dyddiad y cawsant eu hadolygu ar y ddogfen.</p> <p>Mae Rheoliad 21 (tudalen 23) yn darparu gofynion manwl o ran ymdrin â chwynion. Nid yw'r rhestr o bolisiâu a gweithdrefnau a nodir ar dudalennau 11 a 12 yn cynnwys polisi</p>

<p>Tudalen 13 Rheoliad 8 (7)</p> <p>Tudalen 13 Rheoliad 8 (8)</p>	<p>diwygio a gweithredu'r polisïau a'r gweithdrefnau hynny.</p> <p>Rhaid i'r person cyfrifol roi ar gael ar gais gan glaf, ac unrhyw ddarpar glaf, gopiâu o'r polisïau a'r gweithdrefnau.</p> <p>Rhaid i'r person cofrestredig gadw copiâu o'r holl bolisïau a gweithdrefnau y cyfeirir atynt yn y rheoliad hwn, gan gynnwys fersiynau blaenorol o bolisïau a gweithdrefnau sydd wedi eu diwygio yn unol â pharagraff (6), am gyfnod o ddim llai na thair blynedd o ddyddiad creu neu ddiwygio'r polisi neu'r weithdrefn.</p>	<p>cwynion, ond mae Rheoliad 21 yn ei gwneud yn eglur bod rhaid i'r practis feddu ar weithdrefn gwynion.</p> <p>Nid oes rhaid i chi ddarparu copiâu personol o bolisïau / gweithdrefnau ar gais i gleifion. Mae'n dderbyniol darparu copi'r practis i gleifion ei ddarllen pan fyddant yn y practis.</p> <p>Mae Cronfa Risg Cymru a sefydliadau indemniad deintyddol yn argymhell ei bod yn arfer da cadw copiâu o bolisïau a gweithdrefnau blaenorol am o leiaf tair blynedd rhag ofn y bydd angen i chi gyfeirio atynt. Mae hyn hefyd yn ofynnol o dan y rheoliadau. Dylid storio copiâu blaenorol o bolisïau a gweithdrefnau yn ddiogel ar wahân i bolisïau cyfredol fel nad oes perygl y bydd staff yn camgymryd hen bolisïau am fersiynau cyfredol.</p> <p>Rhoddir rhagor o wybodaeth am bynciau penodol (e.e. rheoli heintiau) yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.</p>
<p>Rhan 2 Tudalen 13</p> <p>Rheoliad 9 (2) (b)</p>	<p>Addasrwydd y darparwr cofrestredig</p>	<p>Darparwyr a rheolwyr cofrestredig sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau cydymffurfiad â Rheoliadau. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr a rheolwyr gymryd y cyfrifoldeb hwn o ddifrif ac i wella eu gwasanaethau'n barhaus, dilyn arfer gorau, ac ymateb i adborth pobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Dylid rhoi sylw i bryderon am addasrwydd darparwr neu reolwr cofrestredig yn briodol, yn deg, yn brydlon ac yn effeithiol. Atgoffir y rheini sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol bod safonau'r Cyngor ar gyfer y tîm deintyddol yn nodi bod rhaid i chi godi unrhyw bryder y gallai cleifion fod mewn</p>

		<p>perygl oherwydd iechyd, ymddygiad neu berfformiad proffesiynol cydweithiwr.</p> <p>Pan fo methiannau difrifol a pherygl difrifol i iechyd a llesiant cleifion, efallai y bydd angen cymryd camau brys a allai arwain at ddiddymu cofrestriad. Fodd bynnag, bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i archwilio dewisiadau eraill posibl, gan ein bod yn deall yr effaith ddifrifol y gall diddymiad ei chael ar y practis.</p>
<p>Tudalen 14 Rheoliad 10</p>	<p>Penodi rheolwr</p>	<p>Mae'n rhaid i sefydliadau (corff corfforaethol sydd wedi ei gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau) a phartneriaethau benodi unigolyn i reoli'r practis deintyddol preifat. Nid yw'r rheoliadau yn nodi pwy ddylai gyflawni'r swyddogaeth hon, e.e. deintydd neu reolwr practis, ond mae'n rhaid i'r sawl a benodir ddangos ei addasrwydd i reoli yn unol â-Rheoliad 11 Addasrwydd Rheolwr <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/202/regulation/11/made/welsh>.</p> <p>Nid oes angen i unig fasnachwyr (nad ydynt wedi eu cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau) benodi rheolwr oni bai:</p> <p>(a) nad ydynt yn berson addas i gyflawni'r swyddogaeth fel y disgrifir yn Rheoliad 11;neu</p> <p>(b) nad ydynt yn bwriadu bod yn gyfrifol yn llawn amser o ddydd i ddydd am y practis deintyddol preifat.</p>
<p>Tudalen 15 Rheoliad 11 (4)</p>	<p>Addasrwydd Rheolwr</p> <p>Pan fo person yn rheoli mwy nag un practis deintyddol preifat, rhaid iddo dreulio amser digonol ym mhob practis i sicrhau bod y practis yn cael ei reoli'n effeithiol.</p>	<p>Mae'n rhaid i'r rheolwr dreulio amser digonol ym mhob practis i sicrhau cyfathrebu da gyda'r holl staff ac i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaeth yn ddiogel ac yn effeithiol. Nid oes unrhyw reolau pendant o ran yr hyn sy'n "amser digonol", ond mae'n ofynnol i'r rheolwr dreulio amser ym mhob practis o leiaf unwaith yr wythnos i'w ganiatáu i gyflawni ei swyddogaeth.</p>
<p>Tudalen 15 Rheoliad</p>	<p>Y person cofrestredig – gofynion cyffredinol a hyfforddiant</p> <p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig a'r</p>	<p>Bydd lefel a math yr hyfforddiant yn dibynnu ar gefndir unigolyn (e.e. os yw wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol) a'i swyddogaethau a chyfrifoldebau.</p>

<p>12 (2)</p> <p>Rhan 3 Tudalen 16Rheoli ad 13 (3)</p>	<p>rheolwr cofrestredig ymgymryd, o bryd i'w gilydd, ag unrhyw hyfforddiant sy'n briodol er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau y mae eu hangen i gynnal neu reoli'r practis deintyddol preifat, yn ôl y digwydd.</p> <p>Pan fo dyfeisiau meddygol amldro yn cael eu defnyddio mewn practis deintyddol preifat, rhaid i'r person cofrestredig sicrhau-</p> <p>bod dyfeisiau o'r fath yn cael eu trin yn ddiogel;</p> <p>bod gweithdrefnau priodol yn cael eu gweithredu mewn perthynas â glanhau, diheintio, arolygu, pecynnu, sterileiddio, cludo a storio dyfeisiau o'r fath</p>	<p>Mae'n rhaid i'r rheini sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol gyflawni hyfforddiant / DPP priodol a dylai unrhyw reolwr nad yw wedi ei gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol hefyd gadw'n gyfredol ag arfer da o ran rheoli practis deintyddol. Bydd lefel a math yr hyfforddiant yn amrywio yn ôl cymwysterau a phrofiad unigol. Mae gwybodaeth am hyfforddiant ar gael gan Ddeoniaeth Cymru.</p> <p>Yng Nghymru, mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05) yn disgrifio'r holl agweddau ar ddadheintio mewn practisau deintyddol. Mae WHTM 01-05 ar gael drwy'r ddolen hon: http://www.wales.nhs.uk/sites3/news.cfm?orgid=254&contentid=31428</p> <p>Disgwylir i bob practis archwilio ei weithdrefnau dadheintio. Mae archwiliad Cymru gyfan WHTM 01-05 ar gael drwy'r ddolen hon: https://dental.walesdeanery.org/cy/improving-practice-quality/national-audit-projects</p> <p>Mae Deoniaeth Cymru yn cynorthwyo practisau i gynnal yr archwiliad. O dan drefniadau archwilio clinigol ac adolygu cymheiriaid, mae'r holl ddeintyddion sy'n cwblhau'r archwiliad yn derbyn DPP dilysadwy, ac mae deintyddion â chontract gyda'r GIG hefyd yn gymwys i dderbyn cyllid (mae hyn yn berthnasol i bractisau sy'n darparu gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau preifat).</p> <p>Mae llythyr y Prif Swyddog Deintyddol ar ddefnydd diogel o offerynnau miniog ar gael drwy'r ddolen hon: http://gov.wales/docs/phhs/publications/130522sharpicy.pdf</p>
<p>Tudalen 16Rheoli ad 13 (4)</p>	<p>sicrhau bod deintyddion a gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol wedi eu cymhwyso a'u hyfforddi i ragnodi a rhoi meddyginiaethau o fewn eu cwmpas ymarfer;</p>	<p>Mae Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain ar gael am ddim ar-lein drwy'r ddolen hon: https://www.evidence.nhs.uk/formulary/bnf/current</p> <p>Anogir y rhai sydd wedi cofrestru ym maes deintyddiaeth i gyfeirio at ganllawiau</p>

<p>Tudalen 17 Rheoliad 13 (4) (e)</p>	<p>sicrhau yr adroddir ar bob digwyddiad andwyol sy'n ymwneud â chyffuriau.</p>	<p>rhagnodi Rhaglen Effeithlonrwydd Clinigol Deintyddol yr Alban, sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ryngweithio cyffuriau a rhagnodi diogel / effeithiol. Mae canllawiau Rhaglen Effeithlonrwydd Clinigol Deintyddol yr Alban ar gael drwy'r ddolen hon: http://www.sdcep.org.uk/published-guidance/drug-prescribing/</p> <p>Cynghorir deintyddion i archwilio eu prosesau rhagnodi gwrthfotigau. Mae archwiliad Cymru gyfan o ragnodi gwrthficrobaidd ar gael drwy'r ddolen hon: https://dental.walesdeanery.org/cy/improving-practice-quality/national-audit-projects</p> <p>Dylid hysbysu am y digwyddiadau hyn gan ddefnyddio system cerdyn melyn Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain fel copi caled neu ar-lein drwy'r ddolen hon: https://www.evidence.nhs.uk/formulary/bnf/current/yellow-card-scheme</p>
<p>Tudalen 17 Rheoliad 13 (6) (c)</p>	<p>sicrhau bod system effeithiol yn cael ei gweithredu er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff wedi cwblhau'n llwyddiannus— gwiriadau iechyd safonol; a gwiriadau iechyd ychwanegol pan fydd staff yn gwneud triniaethau a all arwain at gysylltiad.</p>	<p>Disgrifir Gwiriadau Iechyd Safonol yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru: http://www.wales.nhs.uk/documents/WHC(2007)086.pdf</p> <p>Y prif bwyslais ar gyfer firysau a gludir yn y gwaed a chliriad iechyd yw gweithwyr gofal iechyd sy'n cyflawni triniaethau a all arwain at gysylltiad gan eu bod mewn mwy o berygl o ddal neu drosglwyddo firysau a gludir yn y gwaed i gleifion neu weithwyr gofal iechyd eraill. Triniaeth lle mae dwylo'r clinigydd wedi'u "cuddio" mewn ceudod corfforol - fel y geg - yw triniaeth a all arwain at gysylltiad.</p> <p>Disgrifir triniaethau a all arwain at gysylltiad ym maes deintyddiaeth gan Banel Cynghori'r DU drwy'r ddolen hon: https://www.gov.uk/government/publications/general-dentistry-exposure-prone-procedure-categorisation</p>

		<p>Hepatitis B Dylai unigolion sy'n iach ac yn heini fel arall</p> <ul style="list-style-type: none"> - gwblhau cwrs sylfaenol o frechlyn - gael prawf dilynol 1 i 4 mis ar ôl imiwneiddio i wirio eu himiwnedd - os yw eu lefelau imiwnedd ar y ffin o fod yn dderbyniol, gwrthgorff i antigen wyneb hepatitis B (gwrth-HB) yn fwy na 10mIU/ml neu'n union hynny AC yn llai na 100mIU/ml, yna dylent gael dos arall o frechlyn yn rhan o'r cwrs sylfaenol o frechlyn A a phigiad atgyfnerthu ar ôl 5 mlynedd - os bydd eu lefelau imiwnedd yn dderbyniol, gwrthgorff i antigen wyneb hepatitis B (gwrth-HB) yn fwy na 100mIU/ml neu'n union hynny, dylent gael pigiad atgyfnerthu ar ôl 5 mlynedd - nid argymhellir unrhyw brofion pellach o lefel imiwnedd ar adeg y pigiad ychwanegol neu atgyfnerthu neu wedi hynny neu imiwneiddiad ychwanegol fel mater o drefn. <p>Gallwch ddarllen mwy yn y “Green Book” drwy'r ddolen hon (Cyhoeddir y Green Book gan Public Health England a dyma'r ffynhonnell gydnabyddedig o gyngor / gwybodaeth am frechlynnau a thriniaethau brechu, ar gyfer afiechydon heintus y gellir eu hatal â brechlyn yn y DU.)</p> <p>https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/503768/2905115_Green_Book_Chapter_18_v3_0W.PDF</p>
<p>Tudalen 18 Rheoliad 14</p>	<p>Diogelu Cleifion</p>	<p>Mae'r term “diogelu” yn berthnasol i blant ac oedolion mewn perygl (a alwyd yn “oedolion agored i niwed” gynt). Cyhoeddwyd canllawiau ar ddiogelu gan lechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Medi 2016. Nid yw ar gael yn y Gymraeg ar hyn o bryd. Mae'r canllawiau ar gael yn Saesneg drwy'r ddolen isod (efallai y bydd cais am gyfrinair yn ymddangos ond dylai'r ddogfen agor os byddwch yn cau'r cais am gyfrinair):</p> <p>http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/888/opendoc/435682</p> <p>Mae Deoniaeth Cymru yn cynnig cyrsiau ar ddiogelu. Mae gwybodaeth am gyrsiau ar gael drwy'r ddolen hon:</p> <p>https://dental.walesdeanery.org/cy/node/8013</p>

Tudalen 19 Rheoliad 15 (2)	Preifatrwydd, urddas a pherthnasau	Dyma'r nodweddion gwarchoddedig: oedran; anabled; ailbennu rhywedd; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; a phriodas neu bartneriaeth sifil -fel y disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.
Tudalen 19 Rheoliad 16	Asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan gynnwys ffurflenni blynyddol.	Mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gael i gynorthwyo gwelliant i ymarfer yng Nghymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys y Matrics Aeddfedrwydd Deintyddiaeth ac archwiliadau Cymru gyfan ar reoli heintiau (WHTM 01-05), rhoi'r gorau i ysmegu, a rhagnodi gwrthfotigau. Mae Deoniaeth Cymru wedi datblygu amrywiaeth o archwiliadau eraill yn ogystal â rhestrau gwirio ar gyfer safonau radiolegol ac adnodd adborth ar brofiad cleifion. Mae rhywfaint o hyfforddiant mewn ymarfer ar gael gan gynnwys cwrs iechyd a diogelwch. Gallwch ofyn am gyngor gan Diwtor Gwella Ansawdd Ymarfer y Ddeoniaeth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy'r ddolen hon: https://dental.walesdeanery.org/cy Mae practisau'r GIG / preifat cymysg yn cwblhau'r Hunanasesiad Sicrhau Ansawdd blynyddol sy'n bodloni gofynion datganiad blynyddol. Bydd AGIC yn cydgysylltu ymarfer WAS blynyddol ar gyfer y practisau hynny sy'n cynnig triniaeth breifat yn unig.
Tudalen 20 Rheoliad 16(2)(b) (iv)	Adroddiadau a lunnir gan yr awdurdod cofrestru	Mae hyn yn cynnwys ymweliadau practis / adroddiadau arolygu AGIC.
Tudalen 20 Rheoliad 16 (2) (c) a (d) (iii)	(c) mynd ati'n rheolaidd i geisio safbwyntiau (gan gynnwys y disgrifiadau o'u profiadau o ofal a thriniaeth) cleifion a phersonau sydd wedi eu cyflogi yn, neu at ddibenion, y practis deintyddol preifat; a (d) pan fo angen, gwneud newidiadau i gyflenwi	Mae'n bwysig gofyn i gleifion am adborth a gofyn am safbwyntiau eich tîm a'ch staff. Mae amrywiaeth o systemau adborth cleifion ar gael gan gynnwys un a luniwyd gan Ddeoniaeth Cymru sy'n cyd-fynd â'r polisi yng Nghymru, <i>Gwrandd a dysgu i wella'r profiad o ofal-Deall sut brofiad yw defnyddio gwasanaethau yn y GIG yng Nghymru</i> : http://www.1000ofwydauamwy.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/Gwrandd%20a%20dysgu%20i%20wella%E2%80%99r%20profiad%20o%20ofal.pdf Mae'n bwysig cymryd sylw o adborth cleifion a chymryd camau priodol ar ei sail.

<p>(d) (i)</p>	<p>gwasanaethau, triniaeth neu ofal a ddarperir er mwyn adlewyrchu—</p> <p>(iii) safbwyntiau cleifion a phersonau sydd wedi eu cyflogi yn, neu at ddibenion, y practis deintyddol preifat.</p> <p>(i) y dadansoddiad o ddigwyddiadau a achosodd, neu a oedd â'r potensial i achosi, niwed i glaf;</p> <p>(ii) casgliadau'r adolygiadau lleol a chenedlaethol o wasanaethau, archwiliadau clinigol a gwaith ymchwil a</p>	<p>Mae'n bwysig i dîm y practis ddysgu o ddigwyddiadau sy'n achosi niwed i gleifion (tynnu'r daint anghywir er enghraifft) neu achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd (er enghraifft, paratoi i ysgrifennu presgripsiwn ar gyfer penisilin i glaf ag alergedd i benisilin). Dylai tîm y practis ystyried unrhyw ddigwyddiadau i nodi'r rhesymau am y digwyddiad hwn a chanfod a oes angen unrhyw newidiadau diogelwch. Mae'n rhaid hysbysu AGIC am unrhyw ddigwyddiadau sy'n achosi anaf neu niwed difrifol i gleifion sy'n derbyn gofal deintyddol preifat. Nid yw hyn er mwyn neilltuo bai. Mae'n galluogi AGIC i nodi themâu o ddigwyddiadau ailadroddus a allai ddynodi angen am hyfforddiant deintyddol.</p> <p>Gallwch ddarllen mwy am hysbysu am ddigwyddiadau a dysgu drwy'r ddolen hon: https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/national-audit-projects/feedback-and-examples</p> <p>Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi bod yn rhaid i bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol fod yn agored ac yn ddidwyll gyda chleifion pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda'u triniaeth neu ofal sy'n achosi, neu a allai achosi, niwed neu drallod. Mae rhagor o gyfarwyddyd ar y Ddyletswydd Gonestrwydd ar gael drwy'r ddolen hon: https://www.gdc-uk.org/professionals/standards/team</p> <p>Mae enghreifftiau o adolygiadau cenedlaethol yn cynnwys canllawiau NICE, hysbysiadau diogelwch yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, a llythyrau'r Prif Swyddog Deintyddol yng Nghymru.</p>
----------------	--	---

	<p>gynhelir gan gyrff arbenigol priodol; a</p> <p>(iii) safbwyntiau cleifion a phersonau sydd wedi eu cyflogi yn, neu at ddibenion, y practis deintyddol preifat.</p>	<p>Mae cyfarfodydd staff / tîm rheolaidd, wedi eu rhedeg yn dda, yn gyfle i ofyn am safbwyntiau'r staff.</p>
<p>Tudalen 20 Rheoliad 16 (3)</p>	<p>...ffurflen flynyddol sy'n nodi sut y mae'r person cofrestredig wedi bodloni gofynion paragraff (1),</p>	<p>I bractisau'r GIG / preifat cymysg, mae'r QAS (Hunanasesu Sicrwydd Ansawdd) blynyddol yn bodloni gofynion datganiad blynyddol. Dylai practisau cwbl breifat gadw cofnod o sut y maent yn asesu a monitro ansawdd darpariaeth y gwasanaeth. Mae'n rhaid darparu'r cofnod hwn i AGIC ar gais.</p>
<p>Tudalen 21 Rheoliad 17 (3) (e)</p>	<p>Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod pob person a gyflogir yn, neu at ddibenion, y practis deintyddol preifat—</p> <p>(e) â mynediad at brosesau sy'n ei alluogi i fynegi pryderon, yn gyfrinachol a heb ragfarnu ei gyflogaeth, am unrhyw agwedd ar gyflenwi gwasanaethau, triniaeth neu reoli.</p>	<p>Cyfeirir at godi pryderon weithiau fel “chwythu'r chwiban”. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cynnig Cyngor i Weithwyr Deintyddol Proffesiynol ar Godi Pryderon. Mae hwn ar gael drwy'r ddolen hon:</p> <p>https://www.gdc-uk.org/professionals/standards/team</p> <p>Mae Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y tîm deintyddol yn nodi bod rhaid i chi wneud yn siŵr, os ydych yn cyflogi, yn rheoli neu'n arwain tîm, bod gweithdrefn effeithiol ar waith ar gyfer codi pryderon, bod y weithdrefn ar gael yn rhwydd i'r holl staff, a'i bod yn cael ei dilyn bob amser.</p>
<p>Tudalen 21 Rheoliad 17 (4)</p>	<p>Arfarnu</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a sefydliadau proffesiynol eraill ym maes addysg ddeintyddol yn cydnabod gwerth gwerthusiad blynyddol ar gyfer holl aelodau'r tîm deintyddol.</p> <p>Fodd bynnag, efallai na fydd yn ymarferol nac yn briodol i'r deintydd(ion) ar y lefel uchaf gael eu gwerthuso gan aelodau eraill o'r tîm, ac efallai yr hoffent ystyried systemau datblygiad proffesiynol eraill fel adolygiadau cymheiriaid gyda phractisau cyfagos. Gall</p>

		Deoniaeth Cymru ddarparu gwybodaeth ychwanegol am systemau gwerthuso.
Rheoliad 17 (4) (b)		Mae Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ei gwneud yn eglur y gellir gwneud gweithwyr deintyddol proffesiynol cofrestredig yn gyfrifol am weithredoedd unrhyw aelod o staff nad oes rhaid iddo gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (er enghraifft, derbynyddion, rheolwyr practis neu gynorthwywyr labordy). Dylech sicrhau eu bod yn cael eu hyfforddi'n briodol ac yn gymwys a chymryd camau priodol i ymdrin â'u perfformiad os nad yw'n foddhaol.
Tudalen 22 Rheoliad 18 (2) (e)	Addasrwydd Gweithwyr	Gweler tudalen 39 Atodlen 3 Rhan 1 am ragor o fanylion am wybodaeth sy'n ofynnol am bobl ... sy'n gweithio yn y practis.
Tudalen 39	(e) mewn unrhyw achos arall, tystysgrif cofnod troseddol manwl a ddyroddir o dan adran 113A o Ddeddf yr Heddlu 1997.	<p>Archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yw'r enw ar archwiliadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol erbyn hyn. Fodd bynnag, "tystysgrifau cofnod troseddol" yw'r enw ar y tystysgrifau a gynhyrchir o hyd yn unol â Deddf yr Heddlu 1997. Er nad yw Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer Timau Deintyddol yn cyfeirio'n benodol at archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y rhai sydd wedi cofrestru, mae'r archwiliadau hyn yn ofynnol ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru ac mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau gofal deintyddol.</p> <p>Mae'n rhaid i gyflogwyr sicrhau bod yr holl staff a benodir i weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl yn addas i wneud hynny. Mae'n rhaid cymryd pob cam rhesymol yn y broses gyflogi gan gynnwys sicrhau:</p> <p>bod hanes cyflogaeth lawn ar gael (neu hanes addysg os ydynt newydd adael addysg) ynghyd ag esboniadau boddhaol o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth</p> <p>bod cymwysterau a chofrestriadau proffesiynol yn cael eu gwirio</p> <p>bod prawf adnabod yn cael ei wirio (tystysgrif geni a phasbort)</p>

	<p>2. Dau eirda ysgrifenedig, gan gynnwys geirda gan gyflogwr diweddaraf y person, os oes un.</p>	<p>bod tystlythyrau yn cael eu dilysu'n briodol</p> <p>Bod proses ar waith ar gyfer cynnal archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar y lefel briodol ar gyfer staff. Mae'n rhaid i ddeintyddion dderbyn archwiliad uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae angen archwiliad ar gyfer therapyddion deintyddol, hylenyddion deintyddol a therapyddion deintyddol clinigol (mae hyn yn hanfodol os ydynt yn darparu gwasanaethau mynediad uniongyrchol preifat).</p> <p>I'r holl staff eraill, mae angen i bractisau asesu'r gwahanol gyfrifoldebau a gweithgareddau i benderfynu pa lefel o archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd ei hangen arnynt. Mae'r cymhwysedd ar gyfer archwiliadau, a lefel yr archwiliad hwnnw, yn dibynnu ar swyddogaethau a chyfrifoldebau'r swydd, nid yr unigolyn sy'n cael ei recriwtio. Mae hefyd yn seiliedig ar lefel y cyswllt sydd gan staff gyda chleifion, yn enwedig plant ac oedolion mewn perygl, ac unrhyw fynediad sydd ganddynt at gofnodion (yn enwedig cofnodion cleifion).</p> <p>Mae angen derbyn dau dystlythyr ar gyfer pobl sy'n dymuno rhedeg neu reoli practis deintyddol preifat, ac i unrhyw berson sy'n ymgeisio i weithio yn y practis. Fodd bynnag, cydnabyddir efallai na fydd yn bosibl i bob darpar aelod o staff (gan gynnwys y rheini sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol) dderbyn dau dystlythyr proffesiynol. Efallai eu bod newydd gymhwyso, yn dal mewn hyfforddiant, neu wedi gweithio mewn practis bach yn unig yn y gorffennol a gallant, felly, dderbyn un tystlythyr proffesiynol yn unig. Yn yr achosion hyn, gall ail dystlythyr fod gan athro/athrawes, mentor neu unigolyn tebyg arall. Ni ddisgwylir tystlythyr proffesiynol os nad yw'r unigolyn wedi cael ei gyflogi o'r blaen.</p>
<p>Tudalen 22 Rheoliad 19</p>	<p>Canllawiau ar gyfer deintyddion a gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol.</p>	<p>Mae hyn yn cyfeirio'n benodol at Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol. Mae'n rhaid i'r practis hefyd arddangos poster safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r rhain ar gael i'w lawrlwytho drwy'r ddolen hon (gweler Arddangos Gwybodaeth i Gleifion): https://www.gdc-uk.org/professionals/standards/team</p>
<p>Tudalen</p>	<p>(b) bod y cofnod yn cael ei</p>	

<p>22 Rheoliad 20 (b)</p>	<p>gadw am isafswm cyfnod o wyth mlynedd sy'n dechrau ar y dyddiad y daeth y driniaeth y mae'r cofnod yn cyfeirio ati i ben neu y cafodd y driniaeth honno ei therfynu.</p>	<p style="text-align: center;">Y Cyfnod y mae'n Rhaid Cadw Cofnodion Deintyddol</p> <hr/> <table style="width: 100%; border-collapse: collapse;"> <thead> <tr> <th style="text-align: left; border-bottom: 1px solid black;"><i>1.Math o glaf</i></th> <th style="text-align: left; border-bottom: 1px solid black;"><i>2.Cyfnod cadw gofynnol</i></th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td style="padding: 5px;">Claf a oedd yn iau na 17 oed ar y dyddiad y daeth y driniaeth y mae'r cofnodion yn cyfeirio ati i ben</td> <td style="padding: 5px;">Tan ben-blwydd y claf yn 25 oed</td> </tr> <tr> <td style="padding: 5px;">Claf a oedd yn 17 oed ar y dyddiad y daeth y driniaeth y mae'r cofnodion yn cyfeirio ati i ben</td> <td style="padding: 5px;">Tan ben-blwydd y claf yn 26 oed</td> </tr> <tr> <td style="padding: 5px;">Claf a fu farw cyn cyrraedd 18 oed</td> <td style="padding: 5px;">Cyfnod o 8 mlynedd sy'n dechrau ar ddyddiad marwolaeth y claf</td> </tr> <tr> <td style="padding: 5px;">Pob achos arall</td> <td style="padding: 5px;">Cyfnod o 8 mlynedd yn dechrau ar ddyddiad y nodyn olaf yn y cofnod</td> </tr> </tbody> </table>	<i>1.Math o glaf</i>	<i>2.Cyfnod cadw gofynnol</i>	Claf a oedd yn iau na 17 oed ar y dyddiad y daeth y driniaeth y mae'r cofnodion yn cyfeirio ati i ben	Tan ben-blwydd y claf yn 25 oed	Claf a oedd yn 17 oed ar y dyddiad y daeth y driniaeth y mae'r cofnodion yn cyfeirio ati i ben	Tan ben-blwydd y claf yn 26 oed	Claf a fu farw cyn cyrraedd 18 oed	Cyfnod o 8 mlynedd sy'n dechrau ar ddyddiad marwolaeth y claf	Pob achos arall	Cyfnod o 8 mlynedd yn dechrau ar ddyddiad y nodyn olaf yn y cofnod
<i>1.Math o glaf</i>	<i>2.Cyfnod cadw gofynnol</i>											
Claf a oedd yn iau na 17 oed ar y dyddiad y daeth y driniaeth y mae'r cofnodion yn cyfeirio ati i ben	Tan ben-blwydd y claf yn 25 oed											
Claf a oedd yn 17 oed ar y dyddiad y daeth y driniaeth y mae'r cofnodion yn cyfeirio ati i ben	Tan ben-blwydd y claf yn 26 oed											
Claf a fu farw cyn cyrraedd 18 oed	Cyfnod o 8 mlynedd sy'n dechrau ar ddyddiad marwolaeth y claf											
Pob achos arall	Cyfnod o 8 mlynedd yn dechrau ar ddyddiad y nodyn olaf yn y cofnod											
<p>Tudalen 23 Rheoliad 21</p>	<p>Cwynion</p>	<p>Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn darparu gwasanaeth i gleifion sydd â chwynion am ofal deintyddol preifat. Gallwch ddarllen am y "Gwasanaeth Cwynion Deintyddol" drwy'r ddolen hon:</p> <p style="text-align: center;">https://www.gdc-uk.org/about/what-we-do/dcs</p> <p>Efallai y bydd yn ddefnyddiol i staff y practis nodi bod y Cyngor Deintyddol Cyffredinol</p>										

		<p>yn darparu taflenni i gleifion am y Gwasanaethau Cwynion Deintyddol. Mae'r rhain ar gael drwy'r ddolen hon:</p> <p>https://www.gdc-uk.org/search?querytext=DCS+patient+leaflet</p>
Tudalen 23 Rheoliad 21 (5)	"...gynnal cofnod o bob cwyn"	Dylai'r practis gadw cofnod manwl o'r holl gwynion ffurfiol (gallai'r rhain fod yn ysgrifenedig neu ar lafar). Mae'n ddefnyddiol cadw cofnod o unrhyw bryderon a godwyd (er enghraifft, pryder llafar am yr ystafell aros neu gyfleusterau toiled) i nodi unrhyw themâu yn y pryderon hyn a sicrhau eu bod yn cael sylw priodol. Mae'n ddefnyddiol cadw cofnod o ganmoliaeth (llafar neu ysgrifenedig).
Tudalen 24 22 (3) (a)	Cyfleusterau at ddibenion newid	Dylai staff allu newid i ddillad / gwisg diogelwch personol yn y practis, a dylai fod man storio diogel ar gyfer eu dillad. Ni ddylid gwisgo dillad diogelwch personol y tu allan i'r practis.
Tudalen 24 Rheoliad 22(4) (a)	Cymryd rhagofalon digonol yn erbyn y risg o dân...	Dylid prynu offer diogelwch tân gan gyflenwr achrededig. Gall eich practis gael gwybodaeth a chynghor diogelwch tân gan sefydliadau ymgynghorwyr diogelwch tân lleol.
Tudalen 25	Ymweliadau gan ddarparwr cofrestredig â phractis deintyddol preifat	Pan nad yw'r darparwr cofrestredig yn gweithio yn y practis, dylai gadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r practis (gan gynnwys ymweld â'r practis o leiaf unwaith bob blwyddyn).
Tudalen 26 Rheoliad 25 (1) (b)	Achos o unrhyw glefyd heintus...	Gallai hyn gynnwys hysbysu AGIC os canfyddir fod gan aelod o staff firws a gludir yn y gwaed neu os canfyddir fod y system ddŵr wedi ei halogi gyda chlefyd y llengfilwyr.
Tudalen 26 Rheoliad 26	Hysbysiad o absenoldeb dros dro person cofrestredig	Mae paragraffau (1) a (2) yn ymwneud ag absenoldeb a gynlluniwyd yn hytrach nag absenoldeb sy'n digwydd o ganlyniad i fater na ragwelwyd, e.e. damwain neu salwch. Mae paragraff (3) yn ymwneud ag absenoldeb heb ei gynllunio o ganlyniad i "argyfwng".
Tudalen 28 Rheoliad	Bod y fangre yn cael ei newid yn sylweddol...	Mae hyn yn golygu newid mawr fel estyniad neu ailwampio trwyadl. Fe'ch cynghorir i drafod newidiadau arfaethedig gydag AGIC os oes gennych amheuan ynghylch a ydynt yn sylweddol.

27 (j)		
Tudalen 28 Rheoliad 28	Hysbysu am droseddau	Mae hyn yn ymwneud â throsedd gyfreithiol yn hytrach na throsedd sifil fel mân drosedd foduro.
Tudalen 29 30 (3) – (4)	Marwolaeth person cofrestredig	<p>Gallai amgylchiadau marwolaeth Person Cofrestredig roi straen sylweddol ar dîm y practis ac aelodau'r teulu y mae gofyn iddynt ymdrin yn uniongyrchol â'r effaith ar y practis.</p> <p>Mae'r rheoliadau'n darparu</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfnod cychwynnol o 28 diwrnod pan all cynrychiolwyr personol y darparwyr sydd wedi marw redeg y practis deintyddol preifat heb gofrestru; • cyfnod ychwanegol o'r fath hyd at chwe mis yn ôl penderfyniad AGIC; a • cyfnod pellach o'r fath o hyd at chwe mis os bydd AGIC yn derbyn cais i gofrestru fel darparwr y practis deintyddol preifat hwnnw. <p>Mae'r amserlenni hyn yn gyson â Rheoliadau'r GIG.</p>
Tudalen 30 Rheoliad 31	Dadebru	<p>Mae Deoniaeth Cymru yn cynnig cyrsiau mewn ymarfer a chyffredinol ar ddadebru ac ymdrin ag argyfyngau meddygol.</p> <p>Gallwch ddarllen mwy am ofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (a'r Cyngor Dadebru) drwy'r ddolen isod:</p> <p>https://www.gdc-uk.org/professionals/standards/medical-emergencies</p>
Tudalen 30 Rheoliad 31 (3) (b)	Sicrhau bod yr holl gyfarpar a meddyginiaethau y mae eu hangen i ddadebru cleifion ar gael ar y fangre	Dylai fod gan y practis systemau ar waith i wirio bod yr holl offer dadebru a chyffuriau brys yn gyfredol ac yn hawdd cael gafeael arnynt mewn argyfwng. Dylid archwilio'r offer hyn yn rheolaidd a chadw cofnodion o'r archwiliadau hyn yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru.
Tudalen 31 Rheoliad 32	Defnyddio cynnyrch laser Dosbarth 3B neu Ddosbarth 4	Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat newydd yn cael gwared ar yr angen i bractisau deintyddol gofrestru defnydd o laserau ar gyfer triniaeth ddeintyddol ar wahân o dan Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

	<p>Yn rhan o'i gofrestrriad ag AGIC, bydd gofyn i'r practis hysbysu AGIC os yw'n defnyddio laserau, pa fath o laser y mae'n ei ddefnyddio, a rhoi sicrwydd ei fod yn cydymffurfio â gofynion ar gyfer hyfforddiant i ddefnyddio'r laser a gofynion iechyd a diogelwch cysylltiedig.</p> <p>Bydd unrhyw laser a ddefnyddir yn y practis deintyddol at ddibenion ac eithrio triniaeth ddeintyddol yn gofyn i'r practis gofrestru ar wahân o dan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.</p> <p>Os oes gennych unrhyw amheuon ynghylch a ydych yn defnyddio laserau at ddibenion ac eithrio triniaeth ddeintyddol, dylech drafod hyn gydag AGIC er mwyn sicrhau bod y laser yn cael ei gofrestru'n gywir.</p>
--	--